


Little Haven

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 200 400 m

PELLTER: LITTLE HAVEN TUA'R TIR - 1.6 milltir (2.6 km)

LITTLE HAVEN, STRAWBERRY HILL - 1.0 milltir (1.6 km)

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Broad Haven 311,


*Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- • • • Little Haven tua'r tir
- • • • Little Haven, Strawberry Hill
- Lwybr Arfordir Sir Benfro
- Lwybr Cenedlaethol
- - - Lwybrau Cyhoeddus
- Maes Parcio
- Toiledau Cyhoeddus
- Safle Bws



Little Haven

Teithiau Byr

Cludiant cyhoeddus: Bws

gwasanaeth Broad Haven 311, *Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio).

Little Haven tua'r tir

Pellter: 1.6 milltir (2.6 km)

Cyfeirnod map: SM856122

Cymeriad: Caeau ag anifeiliaid, lôn wledig dawel, a pheth cerdded ar yr heol.

3 sticil, 1 giât mochyn.

Gadewch y maes parcio wrth yr allanfa i gerddwyr heibio i'r toiledau cyhoeddus. Trowch i'r dde arno i'r heol, cerddwch heibio'r bistro a'r siop, cadwch i'r chwith, yna trowch i'r dde ar unwaith i mewn i Heol Wesley. Ar ddiwedd yr heol, croeswch sticil garreg a pharhewch yn syth ymlaen ar hyd ymyl cae, gan gadw'r cae ar y chwith. Anelwch am y sticil yng nghornel dde uchaf y cae diwethaf. Croeswch y sticil a'r nant, parhewch yn syth ymlaen, gan anelu am y postyn marcio llwybr ar gopa'r llethr, a throwch i'r chwith ar y brig. Gan gadw'r mieri ar y chwith, anelwch am yr ail bostyn ffôn o'r chwith ar ben pellaf y cae, gan aros ar tua'r un lefel. Pan fyddwch yn gallu ei gweld, anelwch am giât mochyn, gan basio trwyddi, a throwch i'r dde arno i'r lôn. Pan fydd y lôn yn troi i'r dde, parhewch yn syth ymlaen i'r 'Coetir/Woodlands', gan aros ar y lôn darmac nes cyrraedd arwydd llwybr troed yn Byngalo Woodvale. Trowch i'r dde, dilynwch y llwybr ac ychydig bach cyn giât cae metel, trowch i'r dde dros sticil a dilynwch y llwybr troellog i lawr y bryn. Wedi croesi'r bont a'r giât, trowch i'r dde ac wrth y groesfan, trowch i'r dde yn ôl i mewn i'r pentref.

Little Haven, Strawberry Hill

Pellter: 1.0 milltir (1.6 km)

Cyfeirnod map: SM852126

Cymeriad: Llwybr arfordirol, serth mewn rhai mannau, peth cerdded ar yr heol.

Grisiau, ond dim sticlau na giatau mochyn.

Gadewch y maes parcio a throwch i'r chwith arno i'r heol. Wedi gadael y pentref a'r ardal 30 milltir yr awr, chwiliwch am giât wedi ei gosod yn ôl yn y clawdd ar y dde. Dilynwch y llwybr sydd wedi treulio at grib y bryn a throwch i'r dde arno i Lwybr yr Arfordir. Trowch i'r chwith wrth y postyn marcio llwybr a dilynwch Lwybr yr Arfordir yn ôl i Little Haven. Mewn dau fan mae'r llwybr yn ymddangos ei fod yn ffordio - ar y ddau achlysur, cymerwch y llwybr ar y chwith sydd agosaf at y môr. Ewch i lawr y grisiau, parhewch yn syth ymlaen ac, ar ôl y tŷ gwyrdd, trowch i'r dde. Trowch i'r dde wrth y swyddfa bost, yn ôl at y maes parcio.

